WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

H Jakeway
Prif Swyddog Tân
Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
Pencadlys
Parc Busnes Forest View
Llantrisant
CF72 8LX

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 645A2013 |
| **Dyddiad** | 27 Tachwedd 2013 |
| **Tudalennau** | **1** o **2** |

Annwyl Huw

## Asesiad Gwella

Yn fy llythyr dyddiedig 30 Medi 2013, rhoddais fy marn ar b'un a oedd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (yr Awdurdod) wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant.

Mae hefyd yn ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), roi barn ynghylch p'un a yw Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (yr Awdurdod) wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

### Yn fy marn i, ac yn seiliedig ar y gwaith archwilio a gyflawnwyd hyd yma, mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau gwelliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi Asesiad ar ei Berfformiad yn 2012-13 (yn dwyn y teitl 'Sut y gwnaethom ni yn 2012-13') cyn y dyddiad cau statudol, sef 31 Hydref 2013.
- Mae 'Sut y gwnaethom yn 2012-13' yn asesu perfformiad yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2012-13) ac yn nodi'n glir sut y mae wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur.
- Mae'r Asesiad yn gwerthuso llwyddiant yr Awdurdod wrth gyflawni ei amcanion gwella a mynegi ei farn yn eglur.
- Mae'r Asesiad yn cynnwys manylion am berfformiad a chymariaethau fel y'i mesurir gan y dangosyddion strategol a chraidd cenedlaethol, gan gynnwys cymariaethau penodol yn erbyn Awdurdodau Tân ac Achub eraill yng Nghymru a pherfformiad ledled y DU.

- Mae'r Asesiad yn cynnwys adran sy'n amlinellu'r gweithgareddau cydweithredol allweddol y mae'r Awdurdod yn rhan ohonynt, yn benodol gwaith y Pwyllgor Materion Cenedlaethol a chydweithio ag Awdurdodau Lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill.
- Mae'r Awdurdod wedi tynnu sylw ei ddinasyddion a'i bartneriaid at fodolaeth yr Asesiad. Mae ar gael yn hawdd, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ar wefan yr Awdurdod gyda chopïau caled, a fformatau eraill, ar gael ar gais. Defnyddiodd gyfryngau cymdeithasol i gyfeirio dinasyddion at yr Asesiad ac mae 'stori ddigidol' yn darparu crynodeb mewn fformat arloesol.
- Mae'r Asesiad yn egluro sut y gall pobl gynnig blaenoriaethau gwella newydd.

Ymatebodd yr Awdurdod yn gadarnhaol i'n cynnig gwella blaenorol (llythyr gwella ac asesu 21 Rhagfyr 2012) er mwyn llunio crynodeb byr sy'n rhoi diweddariad clir a chryno i'r cyhoedd ac yn helpu'r Awdurdod i egluro ei gyflawniadau a'i heriau yn y dyfodol. Hefyd ymatebodd yn gadarnhaol i'n hawgrymiadau ar gyfer gwneud yr Asesiad yn haws i'w ddeall drwy gyfeiriadau cliriach, naratif mwy cryno ac iaith llai technegol.

Nid yw'r llythyr hwn yn awgrymu unrhyw gynigion newydd ar gyfer gwella. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan yr Awdurdod o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol a chyflwyno adroddiadau arno.

Byddaf yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n ategu gwaith rheoli perfformiad a chyflwyno adroddiadau'r Awdurdod yn ystod y misoedd nesaf ac yn cyflwyno adroddiad arno, yn ogystal â chrynhoi'r holl waith a wnaed gennyf a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2013-14 mewn Adroddiad Gwella Blynyddol i'r Awdurdod y byddaf yn ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2014.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Lisa Williams - Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad